**Côd Ymarfer Comisiynu S4C**

**Cyhoeddwyd Ionawr 2026**

Bwriad y Côd Ymarfer hwn (y Côd) yw i roi arweiniad i'r sector cynhyrchu annibynnol ynghylch y prosesau a'r egwyddorion allweddol a ddilynir gan S4C wrth gomisiynu cynnwys clyweledol i'w gyhoeddi ar sianel llinol S4C ac/neu ar S4C Clic[1]. Mae'r Côd wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion adran 10, Rhan 2, Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Chanllawiau Ofcom i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu (22 Gorffennaf 2025).

Mae'r Côd hwn yn disodli fersiynau blaenorol y Côd Ymarfer a gyhoeddwyd yn 2010 a 2018. Fe fydd yn cael ei gyhoeddi ar safle Cynhyrchu S4C ac yn cael ei amlygu i gwmnïau cynhyrchu ar borth comisiynu S4C, Cwmwl (gweler paragraff 2 isod).

## 1. Egwyddorion craidd

Mae cylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus S4C, yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys darparu ystod eang o gynnwys clyweledol amrywiol ac o ansawdd uchel lle mae cyfran sylweddol o'r cynnwys yn Gymraeg[2].

S4C yw'r unig sianel deledu benodedig yn yr iaith Gymraeg yn y byd. Nid oes gan S4C yr adnoddau i gynhyrchu rhaglenni'n fewnol, mae S4C yn comisiynu y rhan fwyaf o'i chynnwys gwreiddiol gan y sector gynhyrchu annibynnol, ag eithrio'r cynnwys a gynhyrchir gan y BBC ar gyfer S4C yn unol â Deddfau Darlledu 1990 a 1996, detholiad gyfyngedig o gynnwys sydd yn bryniannau, cynnwys newyddion digidol a pheth cynnwys hyrwyddo a ffurf-fer ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol allweddol, mae gan S4C rôl unigryw i sicrhau bod sector gynhyrchu annibynnol sydd â'r gallu i weithio'n effeithiol ac effeithlon i greu cynnwys Cymraeg yn ffynnu. Mae rôl S4C wrth ddarparu anogaeth, galluogi buddsoddiad a hybu gweithio'n arloesol yng nghyd-destun cynnwys Cymraeg o fudd i S4C a'i chynulleidfa.

Mae'r Côd hwn yn adlewyrchu bwriad S4C y dylai holl weithgarwch cyfathrebu a chyswllt S4C â'r sector gynhyrchu annibynnol fod yn deg, yn gyson ac yn glir.

Mae S4C yn ymrwymo i ddelio â'r sector mewn amgylchedd lle ceir parch rhwng y naill a'r llall a lle rhoddir sylw priodol i gyfrinachedd. Bydd S4C yn ymgynghori â TAC a'r sector gynhyrchu annibynnol cyn cyhoeddi Telerau Masnach a/neu Delerau Cyffredinol newydd neu ddiwygiedig.

Nid yw'r Côd hwn yn berthnasol i gynnwys sydd wedi'i eithrio, fel y nodir yn rhan 4.9.

Gall cynnwys "ar-lein yn unig" gael ei gomisiynu ar gyfer amryw blatfformau, gan gynnwys YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, er mwyn i'r Côd hwn fod yn berthnasol i'r cynnwys "ar-lein yn unig" rhaid bod bwriad i gyhoeddi'r cynnwys ar S4C Clic. Felly

[1] Nid yw'r Côd yn berthnasol i gynnwys a gomisiynir gan S4C yn ecsgliwsif ar gyfer gwasanaethau y tu hwnt i sianel deledu S4C a/neu S4C Clic, e.e. gwefannau, fideo ar alw neu "aps" symudol. Bydd y rhan fwyaf (ond nid y cyfan) o gynnwys a gyhoeddir gan S4C ar S4C Clic yn cael ei gyhoeddi ar y BBC iPlayer. Cyfeirir at S4C Clic yn unig yma oherwydd y diffiniad o "qualifying audiovisual service" (adran 278(B)(6) Deddf Cyfathrebiadau 2003)

[2] Deddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 12

byddai comisiwn ar gyfer S4C Clic a YouTube yn dod o dan y Côd, ond ni fyddai comisiwn ar gyfer YouTube yn unig[3].

## 2. Y Broses Gomisiynu

Mae proses gomisiynu S4C yn cael ei arwain gan borth ar-lein Cwmwl. Dyma'r system sy'n cychwyn sgwrs rhwng cwmnïau gyda thîm comisiynu S4C, ac yn caniatáu i gynhyrchwyr gynnig syniadau i'w hystyried. Mae porth Cwmwl yno fel llif gwaith i holl dimoedd S4C ar hyd proses cynnig, datblygu a chomisiynu cynnwys, ac i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael iddynt. Mae hefyd yn galluogi S4C i rannu diweddariadau gyda'r cwmni cynhyrchu ac yn darparu cofnod o gyflwyno a statws pob syniad unigol.

Ymhellach mae'r canlynol yn cael ei ddarparu drwy Cwmwl S4C:

- cydnabyddiaeth derbyn syniad
- ymateb cychwynnol i syniad am gynnwys – boed yn ei wrthod neu yn gwahodd i drafod ymhellach
- cadarnhad o gomisiwn a derbyn yr holl fanylder cynhyrchu a busnes perthnasol
- cytundeb terfynol

Fel rheol wrth ddilyn y camau isod mae'r broses gomisiynu yn 16 wythnos o dderbyn y syniad gwreiddiol i dderbyn cytundeb.

**Cam 1:**
Mae'r syniad yn cael ei drafod gyda'r Comisiynydd ac yn cael ei gyflwyno ar y Cwmwl gan gynnwys manylder:

- y syniad golygyddol
- beth yw'r pecyn o gynnwys (e.e. Genre / Dogfen Unigol neu gyfres / Digidol ayyb)
- cynllun cyhoeddi'r cynnwys (e.e. Llinol, Digidol, Pa Blatfform)
- Cynulleidfa Darged
- Amcan bris

**Cam 2:**
Bydd y Comisiynydd yn ystyried y syniad, yn trafod gyda'r Prif Swyddog Cynnwys ac yn penderfynu o fewn 6 wythnos os am barhau gyda'r syniad neu ei wrthod.
Os mai gwrthod y syniad yw'r bwriad, bydd hwn yn cael ei gyfathrebu'r drwy'r Cwmwl gyda'r opsiwn i'r cwmni gael adborth/trafodaeth bellach gyda'r Comisiynydd.
Os oes diddordeb yn y syniad bydd hwn hefyd yn cael ei gyfathrebu drwy'r Cwmwl gyda chais am drafodaethau golygyddol a busnes pellach o fewn pythefnos.
Er bod S4C yn cydnabod pwysigrwydd ymateb prydlon, mae'n bosib na fydd S4C mewn sefyllfa i gynnig adborth nac egluro'i rhesymau dros ei phenderfyniad o fewn yr un cyfnod.

**Cam 3:**
Pan fydd y cwmni wedi darparu'r wybodaeth uchod, bydd y syniad yn cael ei ystyried yng nghyfarfod Golau Gwyrdd S4C sy'n cael ei gynnal bob pythefnos.
Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei arwain gan y Prif Swyddog Cynnwys, ac yn trafod ystyriaethau:

- golygyddol
- cyllidebol a materion busnes

[3] Serch hynny, bydd cynnwys digidol sy'n ategol i'r rhaglenni a wneir i'w darlledu neu i'w cyhoeddi ar S4C Clic, fel arfer yn cael eu prosesu fel rhan o syniad y rhaglen.

- cynllunio
- digidol a chyfryngau cymdeithasol
- cyfathrebu a marchnata

Os yw'r syniad yn derbyn cymeradwyaeth Golau Gwyrdd, bydd y cwmni'n derbyn ffurflen brosiect drwy'r Cwmwl sy'n eu gwahodd i lenwi briff gyda manylder y cynhyrchiad. Mae'r briff yma yn arwain at greu cytundeb rhwng S4C a'r cwmni cynhyrchu o fewn wyth wythnos.

Mae S4C yn ymrwymo i sicrhau ymatebion o fewn yr amserlenni sydd wedi'u cyhoeddi, ar yr amod fod y wybodaeth y gofynnodd S4C amdani gan gynhyrchwyr annibynnol yn cael ei darparu'n brydlon er mwyn i S4C allu bodloni'r terfynau amser hynny.

Gall S4C a'r cynhyrchydd gytuno i newid yr amserlen ar gyfer ystyried syniad, yn enwedig os bydd natur y syniad yn gofyn bod amserlen wahanol yn gyrru'r broses.

Mae S4C yn agored i dderbyn syniadau gan bob cynhyrchydd sydd yn medru cyrraedd gofynion comisiynu S4C. Nid yw proses gomisiynu S4C yn ffafrio nac yn ceisio cyfyngu gwobrau comisiynu i gwmnïau o faint penodol. Nid yw chwaith yn ffafrio nac yn cyfyngu i leoliad(au) penodol, heblaw i'r perwyl:

- bod disgwyliad i unrhyw gwmni cynhyrchu o'r tu allan i Gymru gydweithio â chwmni cynhyrchu sydd yn gofrestredig yn, ac/neu sydd â'i bencadlys yng Nghymru; ac
- y gall fod yna gyfiawnhad golygyddol (e.e. stori leol) neu strategol (e.e. cynnig cyfleoedd mewn ardal ddifreintiedig) mewn achosion penodol.

Mae S4C wedi mabwysiadu [Côd Ymarfer APC ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer ffilmiau a rhaglenni i'r diwydiant ffilmiau, radio a theledu yn y DU.] Yn unol â hyn, mae S4C yn cytuno i wneud y canlynol:

- mabwysiadu a chynnal gweithdrefnau mewnol sy'n sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosib, cadw cyfrinachedd y cynnig mewn modd priodol;
- mabwysiadu a chynnal gweithdrefnau mewnol lle caiff cynigion eu cofnodi;
- cyflwyno ymateb i'r cynnig, boed hynny drwy wrthod y syniad neu drwy fynegi diddordeb mewn syniad drwy anfon e-bost o fewn amser rhesymol ar ôl i'r cynnig ddod i law, yn unol ag unrhyw amserlen a gyhoeddir o dro i dro gan S4C;
- dychwelyd unrhyw ddeunydd digidol neu ddeunydd arall a gyflwynwyd gydag unrhyw gynnig a wrthodwyd; a
- chynnal gweithdrefn datrys anghydfod.

O bryd i'w gilydd, ac mewn amgylchiadau penodol, mae'n bosib y cynhelir proses gystadleuol glir ac agored, er enghraifft, lle caiff hawliau eu cytuno yn ganolog gan S4C. Gweinyddir pob proses gystadleuol yn unol â meini prawf ac amserlennu a gaiff eu cyhoeddi a'u haddasu ar gyfer gofynion y contract unigol. Mae'r broses yn hybu cystadleuaeth wrth gomisiynu cynnwys ar gyfer S4C.

Caiff penderfyniadau sy'n ymwneud â chomisiynu cynnwys ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus S4C eu seilio ar nifer o ffactorau gan gynnwys barn olygyddol. Caiff syniadau eu hasesu gan ystyried y meini prawf canlynol:

- y gallu i gwrdd ag amcanion a thargedau comisiynu;
- argaeledd cyllideb briodol ar gyfer cynhyrchu'r syniad;
- record olygyddol a gweinyddol y cynhyrchydd;

- potensial y syniad i gyflawni egwyddorion a gofynion allweddol S4C.

## 3. Cydymffurfiaeth a Rheolaeth Olygyddol

Bydd gan S4C reolaeth olygyddol dros yr holl gynnwys a gomisiynir, gan gynnwys elfennau aml-lwyfan a rhyngweithiol unrhyw raglen a gomisiynir.

Bydd S4C yn mynnu bod cynhyrchwyr annibynnol yn sicrhau bod yr holl gynnwys a gomisiynir yn cydymffurfio â holl bolisïau S4C sydd wedi'u cyhoeddi ac sydd ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C a'r Canllawiau a'r Codau sydd wedi'u cyhoeddi gan S4C, Ofcom ac unrhyw gorff priodol arall.

## 4. Hawliau

Mae S4C yn ceisio cynnig cytundebau safonol syml i gynhyrchwyr yn unol â Thelerau Cyffredinol S4C.

Nôd S4C yw sicrhau'r hawliau sydd eu hangen arni i weithredu a gweinyddu gwasanaethau cyhoeddus S4C, yn awr ac fel a ragwelir yn y dyfodol, gan gynnwys S4C, S4C Manylder Uwch, gwasanaethau ar-alw S4C a gwasanaethau aml-lwyfan cysylltiedig.

Mae S4C mewn sefyllfa unigryw gan mai hi yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. I'r perwyl hwn, dymuna S4C gysylltu â'r Cymry Cymraeg sydd ar wasgar a siaradwyr Cymraeg y DU sy'n teithio ar hyd a lled y byd a sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael ledled y byd, pan fo hawliau'n caniatáu hynny.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae S4C yn comisiynu cynnwys ar y sail y bydd y cynhyrchydd neu berchennog yr hawliau yn rhoi trwydded i S4C ar gyfer yr Hawliau Sylfaenol canlynol am gyfnod penodedig.

Er lles S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol, mae S4C yn ymrwymedig i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael mewn marchnadoedd eilaidd yn y DU ac i sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael i Gymry Cymraeg sydd oddi cartref yn fyd-eang. I'r perwyl hwn bydd S4C hefyd yn ceisio cael trwydded o'r Is-Hawliau ar gyfer cynnwys S4C.

Cynhyrchwyr fydd yn rheoli'n derfynol a fyddant yn dewis rhoi'r Is-Hawliau i S4C ac ni fydd unrhyw orfodaeth ar gynhyrchwyr annibynnol i ganiatáu'r Is-Hawliau i S4C. Bydd gan gynhyrchwyr yr hawl i negydu telerau'r Is-Hawliau ac ni fydd S4C yn disgwyl telerau gwell na'r rhai a negydir yn gyffredinol gyda dosbarthwyr trydydd parti.

Nid yw gosod telerau craidd trwyddedau safonol S4C isod yn atal S4C rhag llunio cytundebau pwrpasol ac unigryw o dro i dro i gwmpasu ystod ehangach neu wahanol o hawliau ar ôl trafodaethau, gan ystyried unrhyw gyfleoedd neu amgylchiadau unigryw unrhyw raglen benodol.

### 4.1 Cyfnod y Drwydded

Pum mlynedd fydd cyfnod trwydded safonol ar gyfer cynnwys ac eithrio cynnwys plant a chynnwys addysgol, a fydd yn saith mlynedd.

Ar dalu Ffi Ymestyn/Adnewyddu, bydd gan S4C hawl awtomatig i ymestyn cyfnod y drwydded am ddwy flynedd arall, ar gyfer pob cynnwys, ac eithrio cynnwys plant a chynnwys addysgol, ac mae modd ymestyn cyfnod y drwydded ar gyfer y rhain am dair blynedd arall.

Pe bai S4C yn dymuno ymestyn cyfnod trwydded am gyfnod pellach neu brynu pecyn hawliau mewn cynnwys lle bo'r drwydded wreiddiol wedi dod i ben, bydd gan S4C yr hawl i wneud cais i'r cynhyrchydd i ymestyn cyfnod y drwydded neu adnewyddu trwydded sydd wedi dod i ben ar sail Ffi Ymestyn/Adnewyddu a amlinellir yn yr atodiad i'r Telerau Masnach neu ar wefan S4C o dro i dro. Os bydd y cynhyrchydd yn cytuno i ymestyn cyfnod y drwydded bydd S4C a'r cynhyrchydd yn arwyddo cytundeb priodol.

4.2 Hawliau Sylfaenol

Bydd yr Hawliau Sylfaenol yn cael eu rhoi ar sail ecsgliwsif o fewn y DU ar gyfer pob cynnwys S4C yn ystod cyfnod y drwydded:

- trwydded ecsgliwsif i ddarlledu'r cynnwys yn ystod cyfnod y drwydded yn y DU;
- Hawliau i sicrhau bod y cynnwys ar gael ar bob llwyfan a weithredir gan S4C, neu ar ran S4C neu o dan drwydded gan S4C yn ystod cyfnod y drwydded, gan gynnwys yr hawliau i gynnig cyfleoedd ychwanegol i wylio gyda neu heb is-deitlau, gwasanaethau dal-i-fyny neu wasanaethau archif;
- Hawliau i gynnig traciau sain ychwanegol, e.e. traciau sain Saesneg,;
- Hawliau i ddefnyddio'r cynnwys (gan gynnwys clipiau, detholiadau a rhagolygon yn unol â'r Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Crai) at ddibenion hyrwyddo i hyrwyddo'r cynnwys a gwasanaethau S4C yn gyffredinol ar bob llwyfan a chyfrwng;
- yr hawl i S4C, mewn ymgynghoriad â'r cynhyrchydd, i drefnu dangosiad theatrig a/neu antheatrig o'r cynnwys;
- yr hawl i awdurdodi sefydliadau addysgol i recordio'r cynnwys oddi ar yr awyr a'r hawl anecsgliwsif i ddarparu copïau o'r cynnwys i fudiadau a sefydliadau trydydd parti a chanddynt ddibenion addysgol neu archifo;
- Hawliau i geisio nawdd ar gyfer defnydd S4C o'r cynnwys ar wasanaethau S4C;
- Hawliau i gomisiynu cynnwys dilynol Cymraeg yn seiliedig ar y cynnwys, gyda'r cynhyrchydd yn cael y dewis cyntaf i gynhyrchu unrhyw gynnwys dilynol o'r fath;

i gyd fel y nodir yn fwy penodol yn y cytundeb trwydded cynnwys.

4.3 Is-Hawliau

Bydd hyd yr Is-Hawliau a'r cwestiwn a ydynt yn ecsgliwsif ai peidio yn destun trafodaeth rhwng S4C a'r cynhyrchydd ym mhob achos. Gall y cynhyrchydd eu rhoi ar sail ecsgliwsif neu anecsgliwsif. Pan fydd S4C yn ceisio gweithredu fel dosbarthwr cynnwys sydd i'w ddosbarthu ymlaen, ni fydd yn cael unrhyw hawliau uwchlaw yr hawliau a roddir yn gyffredinol i ddosbarthwr trydydd parti. Bydd gan y cynhyrchydd yr hawl i ddewis p'un ai yw'n caniatáu i S4C yr Is-Hawliau ai peidio.

Bydd yr Is-Hawliau i gyd yn hawliau na chânt eu nodi uchod fel Hawliau Sylfaenol a byddant yn cynnwys y canlynol (heb gyfyngiad):

- hawliau dosbarthu rhyngwladol mewn/ar unrhyw gyfrwng neu blatfform;
- hawliau dosbarthu a marchnadaeth eraill gan gynnwys DVD, fideo ar alw (VOD), fideo ar alw wedi'i noddi gan hysbysebion (AVOD) a fideo ar alw o dan danysgrifiad (SVOD); a
- hawliau gwerthu cynnwys a chlipiau o gynnwys i drydydd partïon yn y DU a ledled y byd.

Bydd hawl S4C i ymarfer yr hawliau uchod yn ddarostyngedig i gytuno gyda'r cynhyrchydd ar drefniadau ar gyfer sicrhau taliadau cliriadau, breindaliadau a gweddill-daliadau priodol.

Mae'r Is-Hawliau ar gael i'w hecsbloetio gan y cynhyrchydd tu allan i'r DU 24 awr wedi darllediad cyntaf y cynnwys ar sianel llinol S4C ac/neu ei gyhoeddiad ar S4C Clic. Mae'r Is-Hawliau ar gael i'w hecsbloetio gan y cynhyrchydd o fewn y DU:

i) ar ddiwedd cyfnod y drwydded ar gyfer hawliau gwerthu eilaidd y cynnwys (ac unrhyw fersiwn iaith dramor yn seiliedig ar y fformat) ar gyfer ecsbloetio ar deledu a ffrydio ar-lein yn y DU (p'un ai VOD, SVOD, AVOD neu wasanaethau ffrydio eraill);

ii) unrhyw adeg ar ôl 7 diwrnod ar ôl i bennod olaf y cynnwys gael ei darlledu a/neu ei chyhoeddi am y tro cyntaf ar S4C ar gyfer gwerthiannau eilaidd drwy DVD, lawr lwytho i'w berchen (DTO) a VOD a thelir amdano ar gael yn y DU; ac

iii) 24 awr ar ôl darllediad cyntaf y rhaglen ar sianel llinol S4C ac/neu ei gyhoeddiad cyntaf ar S4C Clic ar gyfer pob math o ymelwa ar nwyddau yn y DU.

Mae'r cynhyrchydd yn cadw rheolaeth dros yr Is-Hawliau ac ecsbloetio y tu allan i'r DU a bydd unrhyw negydu rhwng y cynhyrchwr a S4C mewn perthynas ag arfer yr Is-Hawliau yn cynnwys trafodaeth ynghylch p'un ai ydy'r trefniant dosbarthu yn ecsgliwsif ai peidio ag ynghylch hyd unrhyw hawliau o'r fath a roddir i S4C.

4.4 Rhyddhau Hawliau yn Gynnar

Bydd yn rhaid i'r cynhyrchwyr sicrhau caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan S4C os yw'r cynhyrchydd yn dymuno ymelwa ar y cynnwys, y fformat neu'r cysyniad neu unrhyw ran ohono yn y DU yn ystod cyfnod y drwydded. Bydd angen i S4C a'r cynhyrchydd gytuno ar amrywiad i delerau safonol y drwydded.

Nid yw S4C yn bwriadu cadw hawliau ecsgliwsif lle mae S4C wedi cadarnhau nad oes ganddi unrhyw fwriad i arfer yr hawliau hynny ei hun. Mae'r egwyddorion a ystyrir gan S4C wrth benderfynu pa un ai i ryddhau hawliau'n gynnar, wedi'u nodi ym Mholisi Rhyddhau yn Gynnar S4C.

4.5 Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol

Os bydd S4C yn dewis darlledu cynnwys plant a/neu gynnwys addysgol ar sianel llinol S4C fel rhan o amserlen gyffredinol S4C yn hytrach nag yn ystod y blociau yn yr amserlen sydd wedi'u neilltuo'n arferol ar gyfer rhaglenni plant/addysgol, bydd S4C yn rhoi tâl bonws i'r cynhyrchydd er mwyn sicrhau'r hawliau i ddarlledu'r cynnwys y tu allan i'r slot penodol ar gyfer cynnwys plant/addysgol. Bydd tâl bonws o'r fath yn unol â thariff wedi'i gyhoeddi.

4.6 Gwasanaethau Mynediad

Mae gan S4C rwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaeth arwyddo a sain ddisgrifio ar gyfer cyfran o'i chynnwys. Gall S4C ddarlledu'r cynnwys ar y sianel llinol neu ei gyhoeddi ar S4C Clic gyda gwasanaeth arwyddo ar y sgrin (gan leihau maint llun y rhaglen er mwyn cynnwys yr arwyddwr ar gyfer y diben hwn) neu gyda sain ddisgrifio (yn achos cynnwys ar y sianel llinol, yn ystod slotiau neu flociau penodol yn yr amserlen.

4.7 Ymelwa

Pan fydd y cynhyrchydd yn ymelwa'n fasnachol ar gynnwys, bydd gan S4C yr hawl i dderbyn canran o'r incwm net sy'n codi yn sgil hynny er mwyn cyflwyno gwerth yn ôl i'r pwrs cyhoeddus a chydnabod cefnogaeth S4C i'r cynnwys. Nodir gwir ganran yr incwm net sy'n daladwy i S4C yng nghytundeb trwydded y cynnwys.

Pan fydd y cynhyrchydd yn dewis addef i S4C yr hawl i ymarfer yr opsiwn i ddosbarthu cynnwys ar sail fasnachol fel rhan o'r Is-Hawliau, bydd S4C yn cadw ffi ddosbarthu, na fydd yn uwch na ffi safonol y diwydiant, a bydd yn talu canran o'r holl Incwm Net i'r cynhyrchydd fel y nodir yn y cytundeb is-hawliau.

4.8 Cyllid Trydydd Parti

Bydd y cynhyrchydd yn gwbl gyfrifol am drafod â dosbarthwyr a/neu gyllidwyr trydydd parti. Dylid cynnal unrhyw drafodaethau perthnasol rhwng y cynhyrchydd a changen fasnachol S4C (S4C Rhyngwladol yn achos y Gronfa Cynnwys Masnachol ac SDML yn achos y Gronfa Dwf) yn annibynnol o'r trafodaethau gyda S4C am y ffi drwydded. Mae S4C yn dilyn y Protocol hwn wrth gomisiynu pan fo buddsoddiad gan grŵp masnachol S4C mewn cwmni cynhyrchu.

Wrth ymrwymo i drefniadau cyllido aml-barti ar gyfer cynnwys S4C, bydd S4C yn disgwyl ymrwymo i drefniadau trwyddedu sy'n sicrhau i S4C yr hawliau a nodir yn y Côd hwn. Fodd bynnag, gall gofynion ariannwr/darlledwr trydydd parti olygu bod angen cytundeb gwahanol mewn perthynas â'r pecyn hawliau S4C a/neu hawliau'r cynhyrchwr i arfer yr Is-Hawliau. Dan amgylchiadau o'r fath, gellir negydu pecynnau hawliau a chyfranogiad refeniw pob darlledwr/ariannwr fesul achos gan ystyried gofynion pob un o'r partïon.

4.9 Eithriadau

Ni fydd y telerau hyn yn berthnasol yng nghyswllt:

- cynnwys na fwriedir ei ddarlledu ar sianel llinol S4C na'i gyhoeddi ar S4C Clic;
- cynnwys a gyflenwir i S4C gan y BBC yn unol â Deddfau Darlledu 1990 a 1996;
- cynnwys a gomisiynir gan gyflenwr nad sydd wedi ei adnabod yn 'gynhyrchydd annibynnol' yn unol â Chanllawiau Ofcom[4]
- cynnwys sydd ddim yn cyfri tuag at y cwota cynyrchiadau annibynnol statudol[5] a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol[6] ar argymhelliad OFCOM[7], heblaw ei fod wedi'i gomisiynu ar gyfer darlledu llinol, neu heblaw fod S4C yn dewis fel arall.

er y byddai S4C yn disgwyl y bydd y broses o gomisiynu'r cynnwys uchod ac unrhyw gynnwys cysylltiedig yn dilyn egwyddorion allweddol y Côd hwn pan fo hynny'n briodol.

4.10 Aseiniadau llawn a thelerau amgen

Yn unol â pharagraffau 2.28, 2.37 a 2.38 Canllawiau Ofcom i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu (22 Gorffennaf 2025), gall S4C a'r cynhyrchydd gytuno ar gomisiwn ar sail aseiniad llawn neu delerau amgen. Gall hyn fod oherwydd bod angen i S4C fod yn berchen ar yr hawliau angenrheidiol, neu eu rheoli, am mai S4C sydd bia'r brand, a/neu i sicrhau dilyniant rhwng contractau olynol ar gyfer y gwasanaeth a/neu i osgoi deunydd o'r fath yn cael ei ddefnyddio gan eraill. Ar ddyddiad cyhoeddi'r Côd hwn mae'r canlynol ("Ceinciau") yn cael eu comisiynu ar sail aseiniad llawn:

- Yr Ŵyl Cerdd Dant
- Eisteddfod yr Urdd
- Eisteddfod CFfI Cymru
- Heno
- Prynhawn Da
- Stwnsh (Dolenni)
- Cyw (Dolenni)
- Rownd a Rownd
- Sioe Frenhinol Cymru
- Cân i Gymru
- Dechrau Canu, Dechrau Canmol
- Cefn Gwlad

[4] Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 ac (unwaith y daw i rym) 2025.
[5] Paragraffau 7 a 10 Atodlen 12 (Rhan 2) Deddf Gyfathrebiadau 2003 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024.
[6] Ibid, paragraff 7(2)
[7] Ibid, paragraff 7(7).

- Tywydd
- Pawb a’i farn

Yn ogystal, gall S4C ofyn am aseiniad llawn neu delerau amgen:

- lle nad yw’r cynhyrchydd yn berchen ar yr hawliau angenrheidiol, nac yn eu rheoli, o ran syniad neu fformat y rhaglen (gan gynnwys lle mae S4C wedi caffael neu drwyddedu'r hawliau angenrheidiol yn uniongyrchol[8]);
- neu am reswm dilys arall.

## 5. Tariffau Dangosol

Bydd S4C a’r cynhyrchydd yn negydu’r ffi drwydded sy’n daladwy gan S4C.
Mae S4C wedi cyhoeddi rhestr o dariffau dangosol sy’n rhoi syniad o’r pris y mae S4C yn fodlon ei dalu am drwydded ar gyfer yr hawliau sylfaenol. Mae’r tariffau dangosol yn rhoi syniad i gynhyrchwyr o brisiau amrywiol gwahanol genres o gynnwys y mae S4C yn eu comisiynu. Pennir y tariffau dangosol drwy gyfeirio at gost cynhyrchu (ar sail un comisiwn) a ffioedd trwydded blaenorol a dalwyd gan S4C am gynnwys tebyg. Ni fwriedir i’r tariffau dangosol rwymo S4C.

Bydd amrywiaeth o ffactorau’n dylanwadu ar swm y ffi drwydded, gan gynnwys:

- Manyleb olygyddol y cynnwys;
- Amcangyfrif o gost uniongyrchol cynhyrchu’r cynnwys;
- Tariff dangosol S4C ar gyfer y cynnwys;
- Yr hawliau a ddyfarnir i S4C a/neu raddau ecsgliwsif S4C;
- Nifer y penodau;
- Gofynion amserlen S4C;
- Potensial masnachol y cynnwys, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, a’r posibilrwydd o sicrhau buddsoddiad gan drydydd parti;
- Y cyllid sydd ar gael gan ffynonellau trydydd parti; ac
- Unrhyw ffioedd cynhyrchu i’w talu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i ofyn i gynhyrchwyr ddarparu’r gyllideb arfaethedig ar gyfer y cynnwys.

Unwaith y cytunir ar ffi drwydded, nid yw S4C yn disgwyl y bydd y ffi yn newid yn ystod y cyfnod cynhyrchu, ac eithrio yn unol ag unrhyw gytundeb ysgrifenedig gan S4C ymlaen llaw yn dilyn newidiadau golygyddol a gymeradwywyd gan S4C.

## 6. Talu am gynnwys a gomisiynir

Fel arfer bydd S4C yn llif-ariannu’r ffi drwydded yn unol â cherrig milltir olygyddol ac ariannol. Cytunir ar y llif arian fel rhan o drafodaethau’r cytundeb. Gall S4C fynnu bod y cynhyrchydd yn agor cyfrif ymddiriedolaeth er budd S4C.

Mewn rhai amgylchiadau mae’n bosib na fydd S4C yn medru llif-ariannu’r holl ffi drwydded ac yn yr amgylchiadau hynny bydd S4C a’r cynhyrchydd yn cytuno ar drefniadau llif-ariannu priodol fel rhan o’r broses o gytuno ar y Briff Golygyddol a Busnes. Gall S4C ddarparu llythyr cadarnhad i fanc lle’n ofynnol gan gynhyrchydd.

Wrth gytuno i lif-ariannu’r ffi drwydded a chymryd trwydded o hawliau mewn cynnwys yn hytrach nag aseiniad hawlfraint, mae S4C yn agored i rywfaint o risg. Mae’n bosib felly, y bydd S4C yn dymuno cofrestru arwystl dros yr hawlfraint yn y cynnwys tan ddyddiad cyfleu’r cynnwys a/neu sicrhau hawliau camu i mewn cadarn.

---

[8] Dylid datgelu amodau hawliau o’r fath mewn unrhyw broses gystadleuol, pan fo hynny’n briodol

Pan fydd cyllidwyr trydydd parti'n ymwneud â chyllido cynnwys a gomisiynir gan S4C, a phan fydd gofyn i S4C lif-ariannu'r ffi drwydded, gall S4C ofyn am ragor o fesurau diogelu a dogfennau i sicrhau diogelwch cyllid y trydydd parti. Bydd S4C yn gofyn am ddogfennau ychwanegol i ddiogelu sefyllfa buddsoddiad S4C yn erbyn unrhyw gyllidwr trydydd parti.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd angen tâl ar y cynhyrchydd er mwyn diwallu gwir gostau cynhyrchu cyn bod cytundeb trwydded y cynnwys yn barod i'w lofnodi, gall S4C ystyried cymeradwyo blaendaliad o hyd at £20,000 (net). Bydd amodau yn berthnasol mewn amgylchiadau o'r fath.

## 7. Datblygu

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cynhyrchwyr yn datblygu prosiect heb gyllid gan S4C. Nid yw'r ffaith fod S4C yn annog gwaith datblygu yn gyfystyr ag ymrwymiad gan S4C i ariannu gwaith datblygu neu i gomisiynu cynnwys. Bydd y cynhyrchydd yn gyfrifol am unrhyw fuddsoddiad yn y gwaith datblygu.

Pan fydd S4C yn cyfrannu at gost datblygu syniad, bydd S4C yn disgwyl bod yn berchen ar hawliau'r gwaith datblygu ar y cyd â'r cynhyrchydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd y naill yn gallu ymelwa ar yr hawliau yn y gwaith datblygu heb ganiatâd y llall.

S4C fydd â'r opsiwn cyntaf i gomisiynu cynnwys yn seiliedig ar y gwaith datblygu lle bo' S4C yn ariannu'r gwaith datblygu. Bydd ymarfer opsiwn o'r fath yn amodol ar gytuno ar ffi drwydded. Bydd yn rhaid cynnwys y costau datblygu (gan gynnwys unrhyw ffioedd sgript) fel rhan o gostau'r cynnwys a bydd angen cydnabod unrhyw ffioedd datblygu a dalwyd ymlaen llaw gan S4C yn ffi drwydded derfynol y cynnwys.

Os nad yw S4C yn ymarfer yr opsiwn i gomisiynu o fewn 12 mis i gyflwyno'r deunyddiau datblygu i S4C, bydd gan y cynhyrchydd yr hawl i ofyn am ad-aseiniad o'r hawliau sy'n berchen i S4C yn y gwaith datblygu. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i'r cynhyrchydd ad-dalu'r arian datblygu a dalwyd gan S4C ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod cynhyrchu.

## 8. Gofynion ar Gynhyrchwyr

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol ac yn amserol rhwng S4C a'r cynhyrchydd a'u bod yn cydweithio'n effeithiol, mae S4C yn disgwyl i'r cynhyrchwyr wneud y canlynol:

- Cyflwyno syniadau am raglenni drwy Cwmwl bob amser, a chynnwys yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y ffurflen ar-lein, gan gynnwys amcangyfrifon realistig a gwirioneddol ar gyfer cyllidebau;
- Cwblhau'r briff golygyddol a busnes o fewn yr amser sy'n ofynnol gan S4C mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd perthnasol a'r tîm Materion Busnes;
- Sicrhau bod eu timau cynhyrchu wedi cael yr holl hyfforddiant priodol a'u bod bob tro yn rhoi ar waith gofynion Côd Darlledu Ofcom, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, deddfwriaeth amddiffyn plant (gan gynnwys Polisi Amddiffyn Plant S4C), safonau CIISA ar wrth-aflonyddu ac unrhyw ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau eraill perthnasol arall (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r polisïau a chanllawiau a gyhoeddir ar Wefan Cynhyrchu S4C);
- Cyflenwi cynnwys yn unol â gofynion technegol S4C, ar y dyddiad a gytunwyd ac am y ffi drwydded y cytunwyd arni, yn unol â'r Briff Golygyddol a Busnes;
- Sicrhau bod yr holl waith papur sy'n ofynnol gan S4C yn cael eu darparu ar amser ac yn ddieithriad;
- Sicrhau cyfleu amserol o ddeunydd hyrwyddol o safon uchel yn unol â'r gofynion cyfleu gan gynnwys lluniau llonydd, clipiau, deunydd tu-ôl i'r camera, darnau fideo

hyrwyddol fydd oll yn addas i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a/neu fel rhan o wasanaeth ar-alw S4C;

- Cydweithio ag S4C i sicrhau bod cynnwys yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata'n effeithiol, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn briodol a'u bod yn cydweithio'n effeithiol efo adran farchnata S4C er mwyn galluogi S4C i greu deunydd marchnata gan ddefnyddio cyfranwyr i'r cynnwys, lle'n briodol;
- Cyflwyno adroddiad costau terfynol i S4C o fewn tri mis ar ôl cyflenwi'r cynnwys; a
- Rhoi'r hawl i S4C archwilio cyfrifon y cynhyrchydd sy'n berthnasol i raglen S4C.

## 9. Datrys Anghydfod

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng S4C a'r cynhyrchydd, dylai'r cynhyrchydd, yn y lle cyntaf, geisio datrys y mater yn ddidwyll ag aelodau staff S4C y mae wedi bod yn trafod y comisiwn â nhw.

Pan nad oes modd datrys y mater fel hyn, dylid cyfeirio'r mater at sylw'r Prif Swyddog Cynnwys, ac wedyn (os yw'n parhau heb ei ddatrys) at sylw Prif Weithredwr S4C.

Os bydd y cynhyrchydd yn parhau i fod yn anfodlon â phenderfyniad y Prif Weithredwr, gall y cynhyrchydd apelio o dan y rhan honno o Drefn Gwyno S4C sy'n delio ag apeliadau.

Bydd S4C a'r cynhyrchydd yn gyfrifol am eu costau eu hunain yng nghyswllt unrhyw anghydfod.

## 10. Adolygu, Cydymffurfio a Monitro

Mae gan S4C Wefan Cynhyrchu bwrpasol. Mae'r cyfleuster hwn yn cefnogi'r broses o gyfleu a chyfnewid gwybodaeth gyda'r gadwyn gyflenwi gyfan ar gyfer cynnwys. Mae'n llwyfan ar gyfer dogfennau a chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi, newyddion a manylion cyswllt, gan gynnwys gwaith comisiynu sydd wedi'i ddyfarnu. Disgwylir i'r Cynhyrchydd ymgyfarwyddo â, a gweithredu'n unol â'r cyhoeddiadau hyn.

Bydd S4C yn paratoi adroddiad blynyddol ar y trefniadau comisiynu yn ystod y cyfnod, at ddibenion adolygu mewnol. Bydd adroddiad o'r fath yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Faint o gynnwys a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, ei werth ariannol, a dadansoddiad o'r cynnwys sydd wedi'i gomisiynu yn ôl gwahanol fathau o gytundebau hawliau (h.y. cytundebau trwydded, cytundeb aseiniad hawliau llawn, comisiynau wedi'u cyllido ar y cyd, ac ati);

- Cyfartaledd hyd cyfnod trwydded am becyn hawliau safonol a nifer y darllediadau;

- Achosion pan fydd y ffi drwydded y tu allan i'r Tariffau Dangosol a gyhoeddwyd;

- Achosion pan fydd y pecyn Hawliau Sylfaenol wedi'i amrywio neu ei drafod;

- Nifer o weithiau y mae trwyddedau Hawliau Sylfaenol wedi'u hymestyn neu eu hadnewyddu;

- Manylion am unrhyw faterion a/neu anghydfod sy'n deillio o weithredu'r Côd;

- Nifer yr achosion pan fydd S4C a'r cynhyrchwyr wedi cytuno i ryddhau hawliau'n gynnar.

- Adolygiad o gydymffurfiaeth S4C gyda'r amserlen gomisiynu.

Bydd S4C yn paratoi adroddiad blynyddol ar y gwaith a gomisiynwyd yn ystod y cyfnod (ac yn seiliedig ar yr uchod) yn unol â manyleb Ofcom. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Ofcom o fewn amserlen y cytunir arni.

Bydd S4C yn adolygu ac yn diweddaru'r Côd hwn yn rheolaidd. Bydd angen i Ofcom gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Côd. Bydd y Côd yn cael ei gyhoeddi ar Wefan Cynhyrchu S4C.

**S4C**